

✓ Mwy o gyfle i fanteisio ar grantiau gan gronfeydd amgylcheddol a chymdeithasol.

Anfanteision:

✗ Gallai cyfyngiadau ar weithgareddau masnachol gyfyngu ar werthiannau ynni er elw.

✗ Gofynion rheoleiddiol uwch na chwmni preifat neu Gwmni Budd Cymunedol.

Gallai hyn fod yn atyniadol ar gyfer cymunedau sy'n awyddus i flaenoriaethu effeithlonrwydd treth a llywodraethu elusennol cryf.

Opsiwn 3: Cydweithfa neu Gymdeithas Budd Cymunedol

Byddai Cydweithfa (Co-op) neu Gymdeithas Budd Cymunedol (BenCom) yn caniatáu i'r gymuned berchnogi'r prosiect, gan gynyddu buddsoddiad trwy gynigion cyfranddaliadau.

Manteision:

✓ Mae'n caniatáu buddsoddiad cymunedol, gan gynyddu ymgysylltiad lleol.

✓ Cyfleoedd rhyddhad treth ar gyfer buddsoddwyr cymunedol.

✓ Mae'n cyd-fynd gyda pholisïau Llywodraeth Cymru ar brosiectau ynni cymunedol.

Anfanteision:

✗ Mae'n rhyddhau rheolaeth gymunedol uniongyrchol dros y prosiect.

✗ Mae'n gofyn i fuddsoddwyr gyfrannu'n weithredol.

Gallai hwn fod yn opsiwn da ar gyfer Cymunedau sy'n awyddus i roi dull o dan berchnogaeth y gymuned ar waith gyda buddsoddiad allanol.

Unwaith y bydd y cynlluniau ar gyfer y prosiect wedi'u cwblhau ac yn barod ar gyfer cyflwyno cais cynllunio, byddwn yn hysbysebu ymgynghoriad cymunedol lle gellir arolygu'r cynlluniau, a gallai'r gymuned dderbyn gwybodaeth fwy manwl ar y cynllun a'r buddion cymunedol arfaethedig a phenderfynu ar y math o fudiad i fwrw iddi gyda'r prosiect.

Newid i Lais Digidol

Heb os, fel preswylwyr, rydych chi wedi clywed am y newid i Lais Digidol erbyn 2027, gyda phreswylwyr yn newid o ddefnyddio ceblau i ddefnyddio ffibr. Caiff y rhwydwaith analog cyfredol, sydd wedi dyddio bellach, ei ddiffodd ar gyfer holl ddarparwyr ffonau.

Mae'r Cyngor Cymuned wrthi'n trefnu bod cynrychiolydd o Digital Voice yn mynychu noson yn

**Ystafell Sant Gwyddelan, tua chefn Ysgol Dolwyddelan
ar ddydd Gwener, Mawrth yr 20^{fed} am 7yh.**

Cyfle i breswylwyr ddod draw ar gyfer sesiwn cwestiynau ac atebion.